Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd : | Swyddog Datblygu Chwaraeon Gorllewin Morgannwg, Brycheiniog, a Maesyfed | Lleoliad : | Llansamlet |
| Adran : | Chwaraeon | Cyflog : | Gweithredol 4:<br>£27,200 - £29,916 |
| Oriau Gwaith : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb : | Tymor Penodol o 12 mis |
| Yn adrodd i : | Rheolwr Rhanbarthol Chwaraeon | Rheolaeth Llinell : | Neb |

## Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd a chlybiau chwaraeon o fewn ysgolion a'r gymuned, drwy gyfrwng y Gymraeg. Recriwtio, datblygu a lleoli gwirfoddolwyr ac hyfforddwyr, trefnu cystadlaethau cylch a rhanbarth i safon Cyrff Chwaraeon Cenedlaethol.

---

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Bydd angen i'r Swyddog Datblygu Chwaraeon datblygu darpariaeth chwaraeon wythnosol y tu allan i oriau dysgu gan weithio at dargedau penodol sydd wedi sefydlu ar gyfer yr ardal, gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau Ysgol.
2. Trefnu a chynyddu'r niferoedd sydd yn cystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon cylch a rhanbarth ar draws nifer o gampau chwaraeon. Cyfrannu at lwyddiant gweithgareddau chwaraeon cenedlaethol.
3. Cynnal cystadlaethau a clybiau / gweithgareddau ym mhroffesiynol gan dilyn canllawiau Iechyd a Diogelwch a rheolau y Cyrff Chwaraeon Cenedlaethol.
4. Datblygu cynlluniau marchnata proffesiynol ac amserol i darpariaeth y rhanbarth.
5. Ble'n briodol, datblygu a cydlynnu gwasanaethau chwaraeon o fewn amser cwricwlwm a prosiectau chwaraeon cymunedol penodol.
6. Mentora prentisiaid, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr sydd yn gweithio yn yr adran gan gynnwys sefydlu Fforymau Hyfforddwyr yr Urdd a hyfforddi ar gyrsiau.
7. Creu rhaglenni gwaith i'r prentisiaid yn dilyn targedau Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ar y cyd gyda'r Uwch Swyddog Datblygu Chwaraeon.
8. Bydd angen cynnal cyfarfodydd a chydweithio gyda swyddogion chwaraeon yr awdurdodau lleol, Cyrff Chwaraeon Cenedlaethol, ysgolion ac unrhyw sefydliad / cyrff sydd yn datblygu chwaraeon yn yr ardal.
9. Bydd cyfrifoldeb ar dargedu darpariaeth yn y canlynol; ardaloedd difreintiedig, chwaraeon i ferched, clybiau teulu a chwaraeon cynhwysol. Bydd targedau pendant er mwyn cyd fynd a nodau ac amcanion yr Urdd a

Chwaraeon Cymru.

10. Monitro a adolygu gweithgareddau o fewn yr ardal yn rheolaidd gan gynnwys cyllid, adroddiadau, casglu a coladu straeon arfer da.

11. Bydd angen darganfod a chwblhau ffynonellau grant ar gyfer ariannu clybiau / gweithgareddau chwaraeon gan weithio tuag at dargedau ariannol e.e grantiau bach cymunedol.

## Manyleb y person a’r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae’n rhaid llenwi’r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â’r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| <u>Hanfodol:</u> | <u>Dymunol:</u> |
|---|---|
| i. Bydd Gradd, Prentisiaeth, neu profiad sylweddol yn y maes chwaraeon yn hanfodol<br><br>i. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu’r gallu i deithio’n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni’r swydd hon.<br><br>i. Bydd cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden yn hanfodol<br><br>v. Bydd hi’n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni’r swydd hon | i. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais<br><br>ii. Bydd profiad o hyfforddi o fantais<br><br>iii. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru |

Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O’R TELERAU, AMODAU AC BUDDIANNAU
**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Datblygu Chwaraeon Gorllewin Morgannwg, Brycheiniog, a Maesyfed |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i’r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus.  Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Arwahan i’ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i’r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i’ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-Blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i’r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i’ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i’w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i’r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| Cynllun Beicio: | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000 |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |